Nos Da

Pan mae hi'n nosi
A'r haul yn mynd i'r gwely
Mae'n amser dweud nos da

Brwsio fy nannedd
Ymolchi fy ngwyneb
A neidio i fy ngwely i

Nos da deulu
Nos da deganau
A nos da i chi

Weithiau dwi'n canu
Neu'n gwrando ar stori
Yn hapus yn fy ngwely i

Nos da deulu
Nos da deganau
A nos da i chi

Weithiau dwi'n hoffi
Cael cwtsh 'da fy nhedi
Yn gynnes yn fy ngwely i

Nos da deulu
Nos da deganau
A nos da i chi

Geirfa gyffredinol / General vocabulary:

haul	sun
nannedd (dannedd)	teeth
ngwyneb (wyneb)	face
ngwely (gwely	bed
deganau (teganau)	toys
deulu (teulu)	family
chi	you (plural)
weithiau	sometimes
stori	story
hapus	happy
nhedi (tedi)	teddy
gynnes (cynnes)	warm

Berfau / Verbs:

nosi	gets dark
dweud	say
brwsio	brush
ymolchi	wash
neidio	jump
canu	sing
gwrando	listen
hoffi	like

Patrymau Iaith / Language Patterns:

Pan mae hi'n ...	When it's ...
Mynd i'r gwely	Going to bed
Mae'n amser ...	It's time to ...
Nos da	Goodnight
Cael cwtsh	Cuddle / Hug
Haul yn mynd i'w wely	Sun goes to bed

© 2025 S4C